CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch Gyfrannol/Uwch

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
General Certificate of Education
Advanced Subsidiary/Advanced

472/52

**HANES – HI2**

**UNED 2**

**ASTUDIAETH O GYFNOD 2**

**AGWEDDAU AR HANES CYMRU A LLOEGR,
tua 1603-1715**

P.M. DYDD MERCHER, 7 Mehefin 2006

(45 munud)

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 8 tudalen.

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Atebwch **un** cwestiwn.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau sgwâr ar ddiwedd pob cwestiwn.

Mae'n bosibl fod y dyfyniadau a ddefnyddir yn yr uned hon wedi'u diwygio neu eu haddasu o'r gwaith cyhoeddedig a nodir er mwyn eu gwneud yn fwy dealladwy.

**Atgoffir chi y bydd ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig a ddefnyddir yn eich atebion yn effeithio ar y marciau a roddir.**

## UNED 2

## ASTUDIAETH O GYFNOD 2

## AGWEDDAU AR HANES CYMRU A LLOEGR, tua 1603-1715

*Atebwch* **un** *cwestiwn.*

*Yn eu hymateb i'r cwestiwn dehongli, dylai ymgeiswyr ystyried dilysrwydd y dehongliad gan ddefnyddio'u gwybodaeth o'r cyfnod a dehongliadau posibl eraill. Dylai ymgeiswyr hefyd ystyried y ffactorau a allai fod wedi dylanwadu ar y ffordd y ffurfiwyd y dehongliad – megis y math o hanesydd/awdur, y dystiolaeth oedd ar gael i'r hanesydd/awdur a'r dyddiad cyhoeddi.*

**1. Teyrnladdiad ac atgyfnerthu'r Weriniaeth**

'Sicrhaodd amcanion gwrthdrawiadol *(conflicting)* y radicaliaid gwleidyddol a chrefyddol, oddi mewn ac oddi allan i'r Senedd, na ellid fyth atgyfnerthu'r Weriniaeth.'

[Christopher Hill, hanesydd academaidd ac arbenigwr ar hanes Lloegr yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg, yn ysgrifennu mewn gwerslyfr arbenigol, *The World Turned Upside Down: Radical Ideas during the English Revolution* (1972)]

Pa mor ddilys yw'r dehongliad hwn o atgyfnerthu'r Weriniaeth? [80]

**2. Yr ymchwil am sefydlogrwydd cyfansoddiadol ac Adferiad y frenhiniaeth**

'Er mwyn diogelu'r Weriniaeth a sefydlu rhyw fath o sefydlogrwydd cyfansoddiadol, llyncodd y Senedd ei balchder ac, o'i gwirfodd, gwahoddodd Oliver Cromwell i ddod yn Frenin. Nid oedd gan gadfridogion y fyddin a'r radicaliaid gwleidyddol fawr ddim i'w wneud ag ef.'

[G. E. Aylmer, hanesydd academaidd ac arbenigwr ar hanes gwleidyddol Prydain yn y cyfnod modern cynnar, yn ysgrifennu mewn gwerslyfr arbenigol, *The Levellers in the English Revolution* (1974)]

Pa mor ddilys yw'r dehongliad hwn o'r awydd am Adferiad y frenhiniaeth? [80]

**3. Cymru, tua 1640-1715**

'Er gwaethaf cyflawniadau diamheuol y Taenwyr *(Propagators)* wrth bregethu'r gair ac addysgu'r tlawd, mae'n anodd ymwrthod *(resist)* â'r argraff fod Deddf Taenu'r Efengyl wedi addo mwy nag a gyflawnodd.'

[G. H. Jenkins, hanesydd academaidd ac arbenigwr ar hanes Cymru'r ail ganrif ar bymtheg, yn ysgrifennu mewn gwerslyfr hanes cyffredinol, *The Foundations of Modern Wales: Wales 1642-1780* (1987)]

Pa mor ddilys yw'r dehongliad hwn o effaith Deddf Taenu'r Efengyl, 1650? [80]